Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Seminar masnach twristiaeth y gwanwyn a digwyddiad cwrdd â'r cynhyrchwyr, 28 Mawrth 2023

Mae Twristiaeth Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Cywain, Menter a Busnes, yn cynnal seminar masnach y gwanwyn a digwyddiad cwrdd â'r cynhyrchwyr yng ngwesty y Royal Victoria, Llanberis ar 28 Mawrth 2023 (9:30am-1:00pm). I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/e/570927338037

# TRETH: Trethdalwyr yn cael mwy o amser ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer Yswiriant Gwladol gwirfoddol i 31 Gorffennaf 2023 i roi mwy o amser i drethdalwyr lenwi bylchau yn eu record Yswiriant Gwladol a helpu i gynyddu'r swm y maen nhw'n ei dderbyn ym Mhensiwn y Wladwriaeth. I ddarganfod mwy, ewch i:

http://bit.ly/3neKNzf

# CYLLID: Cymru Ystwyth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei thaflen Cymru Ystwyth fydd yn helpu i gynnal a chryfhau cysylltiadau busnes, economaidd ac ymchwil Cymru gyda rhanbarthau Ewropeaidd, a hynny yn dilyn i'r DU adael yr UE. Bydd y rhaglen yn dyrannu grantiau o hyd at £40,000 dros y 12 mis nesaf i fusnesau a sefydliadau yng Nghymru er mwyn cynnal a datblygu partneriaethau, rhwydweithiau a chydweithrediadau newydd gyda rhanbarthau a gwledydd pwysig yng ngweddill Ewrop. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.llyw.cymru/cymru-ystwyth

# HYFFORDDIANT: Cymorth i Dyfu | Cwrs Rheolaeth

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cymorth i Dyfu: Cynllun Rheolaeth, wedi'i gynllunio i fod yn hylaw ochr yn ochr â gwaith llawn amser ac mae'n cefnogi arweinwyr busnesau bach i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, arloesi a mabwysiadu digidol. Mae mwy o wybodaeth am y cwrs nesaf, fydd yn dechrau ar 27 Mawrth 2023 yn Ysgol Busnes Bangor, ar gael ar:

https://lnkd.in/eGghqMaQ

Mae gwybodaeth gyffredinol am raglenni Cymorth i Dyfu ar gael ar:

https://helptogrow.campaign.gov.uk/

## RHEOLIADAU: Trwydded chwarae cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio

Mae angen i fusnesau sy'n chwarae cerddoriaeth yn gyhoeddus neu yn eu adeiladau, yn cynnwys cerddoriaeth byw a cherddoriaeth gefndir ar CD, radio neu sianel gerddoriaeth, gael trwydded o'r enw 'TheMusicLicence'. Mae mwy o wybodaeth, yn cynnwys lle mae angen trwydded, ar gael ar:

http://bit.ly/3FJ8mGW

## DIGWYDDIAD: Arddangos Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs) 31 Mawrth 2023

Yn bartneriaeth sydd wedi ei gyllido rhwng busnes, sefydliad academaidd a myfyriwr graddedig; mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs) yn darparu'r sgiliau a galluoedd i fusnesau a sefydliadau gyflawni arloesedd strategol. Cynhelir digwyddiad i arddangos sut mae KTPs yn gweithio a sut gallant fod o fudd i fusnes yng Ngwesty'r Quay Hotel, Deganwy Marina, LL31 9DJ ar 31 Mawrth 2023 (10:00am-1:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://lnkd.in/eqYjivUm

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru